**Protocol ar gyfer Hyfforddi Aelodau ar Faterion Cynllunio**

***(Cymeradwywyd y protocol hwn mewn Cyngor Llawn ar 8 Ebrill 2008 a daeth i rym ar ôl hynn)***

1. Gofynnir i bob Aelodau o'r Cyngor Sir i ymgymryd â hyfforddiant ar faterion cynllunio.

2. I hyrwyddo hyfforddiant, bydd Swyddogion yn trefnu o leiaf bedwar o ddigwyddiadau hyfforddi ym mhob blwyddyn Gyngor (Mai i Ebrill).

3. Bydd Swyddogion yn trefnu o leiaf 6 o ddigwyddiadau hyfforddi gan ym mhob blwyddyn etholiad i'r Cyngor (Mai i Ebrill).

4. Gofynnir i Aelodau fynychu o leiaf ddau ddigwyddiad hyfforddi a drefnir mewn unrhyw flwyddyn Gyngor (Mai i Ebrill).

5. Gofynnir i bob Aelod newydd ei h / ethol i fynychu'r ddau ddigwyddiad hyfforddi a drefnir ar ddechrau'r Cyngor newydd a chyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Cynllunio yn y flwyddyn Gyngor newydd.

6. Gall Aelodau sydd wedi'u hail ethol ond heb fynychu digon o ddigwyddiadau hyfforddi yn y flwyddyn Gyngor flaenorol fynychu'r 2 ddigwyddiad a nodir ym mharagraff 5 uchod.

7. Bydd yn rhaid i Aelodau nad ydynt wedi mynychu'r hyfforddiant a drefnir gan Swyddogion, gyflwyno'u cynigion amgen ar gyfer hyfforddi i Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol neu i'r Rheolwr Datblygu Rheoli a Chydymffurfio. Gallai dulliau eraill o hyfforddiant gynnwys:-

8.
   - (i) Bod yn bresennol mewn digwyddiad a drefnir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod lleol arall neu ddarparydd allanol.
   - (ii) Dysgu o bell gan ddefnyddio gwefan cynllunio gymeradwy sydd â modiwlau hyfforddi e.e. Y Gwasanaeth Cynllunio Ymgynghorol - www.pas.gov.uk, Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref – www.planningmatters.co.uk

8. Bydd y Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheolaethol yn monitro presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol bob chwe mis. Fel arfer bydd yr adroddiadau ar ddiwedd blwyddyn y Cyngor (Mawrth / Ebrill) ac ar ôl chwe mis o flwyddyn y Cyngor (Tachwedd / Rhagfyr).

9. Cyn y ddau ddigwyddiad hyfforddi olaf mewn unrhyw un flwyddyn Gyngor, anfonir llythyrau at yr Arweinwyr y Grwpiau yn dangos nifer y digwyddiadau y dylai eu haelodau fod wedi eu mynychu am y flwyddyn honno, gyda nodyn atgoffa o'r protocol a gytunwyd ac yn dangos y digwyddiadau hyfforddi sydd i ddod.

10. Bydd yn rhaid i Aelodau fod wedi cwblhau’r hyfforddiant gofynnol am y flwyddyn Gyngor erbyn 30 Ebrill mewn unrhyw un flwyddyn. Bydd aelodau na fydd wedi cyflawni’r hyfforddiant gofynnol erbyn y dyddiad yma’n gallu trafod materion cynllunio ond yn cael eu gwahardd rhag pleidleisio ar unrhyw fater mewn perthynas â chynllunio mewn Pwyllgorau Cynllunio a’r Cyngor Llawn yn ystod y flwyddyn Cyngor dilynol, oni bai:

a) Eu bod wedi mynychu dau ddigwyddiad hyfforddi wedi’u trefnu yn y flwyddyn Gyngor ddilynol neu wedi mynychu digwyddiadau amgen fel y cytunwyd gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a’r Aelod arweiniol dros Bolisi, Cysylltiadau a Gwelliannau.

b) Eu bod wedi’u hawdurdodi i ddal i gymryd penderfyniadau ar faterion cynllunio ar ôl cael eu riportio i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

11. I’w gwneud yn glir, ni fydd Aelodau nad ydynt wedi cyflawni’u gofyniad hyfforddi am y flwyddyn Gyngor (h.y. erbyn 30 Ebrill) yn gallu pleidleisio yn y Pwyllgor Cynllunio / Cyngor Llawn yn y flwyddyn ddilynol ar fater penodol nes cydymffurfio â naill ai 10(a) neu 10(b) uchod. Fodd bynnag, bydd ganddynt hawl i drafod materion cynllunio yn y cyfarfodydd hynny.